Rhif: **WG26663**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Llywodraeth Cymru

## Dogfen Ymgynghori

# Cynllun Gwastraff ac Effeithlonrwydd Adnoddau'r Sector Cyhoeddus

Dyddiad cyhoeddi: **14 Medi 2015**
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn **4 Rhagfyr 2015**

OGL © Hawlfraint y Goron 2015

## Trosolwg

Diben yr ymgynghoriad hwn yw ceisio barn partïon sydd â diddordeb ar Gynllun Gwastraff ac Effeithlonrwydd Adnoddau'r Sector Cyhoeddus. Mae'r cynllun drafft yn ymwneud â'r gwastraff a gynhyrchir drwy weithgareddau cyrff a ariennir yn gyhoeddus.

Mae gan y sector cyhoeddus rôl bwysig i'w chwarae mewn cyrraedd amcanion atal gwastraff, ailddefnyddio ac ailgylchu a nodir yn 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff ' (TZW) – y strategaeth gwastraff ar gyfer Cymru. Mae'r Cynllun Sector Cyhoeddus hwn yn nodi targedau perthnasol y sector a pholisïau Llywodraeth Cymru, rhwymedigaethau deddfwriaethol ac eraill sy'n berthnasol i'r sector cyhoeddus. Mae'r cynllun yn darparu crynodeb o'r camau gweithredu ar wastraff ac effeithlonrwydd adnoddau ar gyfer y sector.

Defnyddir eich barn chi ar yr ymgynghoriad hwn, gan gynnwys ar yr Arfarniad Cynaladwyedd (yn cynnwys yr Asesiad Amgylcheddol Strategol) i ddatblygu cynllun y sector. Yn dilyn yr ymgynghoriad hwn, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried yn llawn yr ymatebion y bydd wedi eu derbyn a bydd yn eu cymryd i ystyriaeth cyn cyhoeddi fersiwn derfynol y cynllun sector.

Hoffai Llywodraeth Cymru eich annog i roi eich barn ar ei chynigion. Yn ychwanegol at y cwestiynau penodol a ofynnir isod mae croeso i chi roi sylwadau ar bob agwedd y mae'r cynllun sector arfaethedig yn ymdrin â hi a'r Arfarniad Cynaladwyedd (yn cynnwys yr Asesiad Amgylcheddol Strategol).

## Sut i ymateb

Atebwch ar-lein, os gwelwch yn dda: www.cymru.gov.uk/consultations/www.cymru.gov.uk/ymgynghoriadau (dan yr Amgylchedd a Chefn Gwlad).

Mae'r ymgynghoriad yn agor: 14 Medi 2015.
Ymatebion i'w cyflwyno erbyn: 4 Rhagfyr 2015.

Gellir hefyd gyflwyno ymatebion drwy lythyr, ffacs neu e-bost at:

Cangen Strategaeth Gwastraff
Adran Cyfoeth Naturiol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: wastestrategy@Cymru.gsi.gov.uk
Ffacs: 029 2082 3686
Ffôn: 029 2082 1787

Os ydych yn ymateb yn ysgrifenedig, dywedwch, os gwelwch yn dda, p'un a ydych yn ymateb fel unigolyn neu'n cynrychioli barn sefydliad. Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, nodwch yn glir pwy y mae'r sefydliad yn eu cynrychioli a, lle bo'n berthnasol, sut y casglwyd barn yr aelodau.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Fel arfer, cyhoeddir enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr awdur gyda'r ymateb, gan fod hyn yn rhoi hygrededd i'r ymarfer ymgynghori. Os nad ydych yn dymuno cael eich enwi fel awdur eich ymateb, nodwch hyn yn benodol wrth ysgrifennu atom.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

**Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**

## Manylion Cysylltu

I gael rhagor o wybodaeth:

Cyfeiriad:

Cangen Strategaeth Gwastraff,
Is-adran Gwastraff ac Effeithlonrwydd Adnoddau,
Llywodraeth Cymru,
Parc Cathays,
Caerdydd,
CF10 3NQ

E-bost: wastestrategy@Cymru.gsi.gov.uk

Rhif ffôn: 029 2082 1787

## Diogelu data

### Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod i ni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn yn eu cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

## Rhagair

Fel y Gweinidog dros Adnoddau Naturiol, gwn pa mor bwysig yw'r cydbwysedd cywir rhwng lles amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol i bobl Cymru. Yr wyf yn cydnabod bod gan y sector cyhoeddus rôl allweddol i'w chwarae o ran sicrhau ein bod yn gallu gwneud ein rhan mewn ailgylchu ac ailddefnyddio eitemau a lleihau neu ddileu gwastraff, p'un a yw hynny gartref, yn y gwaith neu wrth hamddena.

Rydym wedi gwneud gwelliannau mawr yn y ffordd yr ydym yn rheoli ein gwastraff trefol, gyda Chymru'n arwain y DU yn ei chyfradd ailgylchu. Rhaid inni sicrhau bod ein perfformiad yn y sector cyhoeddus yn cyd-fynd â'n llwyddiant trefol.

Mae'r sector cyhoeddus yn ei gyfanrwydd yn gyflogwr sylweddol yng Nghymru, yn caffael nwyddau a gwasanaethau gan fusnesau ac unigolion yn y sector preifat. Bydd y mesurau atal gwastraff ac effeithlonrwydd adnoddau a fabwysiedir gan sefydliadau sector cyhoeddus yn dangos ymrwymiad y sector cyhoeddus i gynaladwyedd, a bydd yn anfon neges glir i'r gweithlu ac i gyflenwyr bod eu rhwymedigaethau o ran datblygiad cynaliadwy yn cael eu cymryd o ddifrif.

Adroddwyd gan Drysorlys EM bod gwariant y sector cyhoeddus ar reoli gwastraff yng Nghymru yn ystod 2012/13 yn £397 miliwn; felly, mae hyn yn arwydd y gallai fod gan Gymru rôl sylweddol i'w chwarae o ran annog atal gwastraff a defnyddio cynnyrch sy'n effeithlon o ran adnoddau, ecoddylunio a deunydd o safon fel deunydd eildro i'w ddefnyddio gan fusnesau gweithgynhyrchu Cymru yn eu cynnyrch terfynol. Rhaid i'r sector cyhoeddus yn ei gyfanrwydd weithredu fel esiampl yn ei arferion gwaith o ran rheoli gwastraff ac effeithlonrwydd adnoddau, ac yn benodol, o ran ei weithgareddau caffael.

Derbyniodd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 Gydsyniad Brenhinol ym mis Mai eleni ac mae'n gofyn i'r sector cyhoeddus wneud penderfyniadau mewn ffordd gynaliadwy. Bydd y Cynllun Gwastraff ac Effeithlonrwydd Adnoddau y Sector Cyhoeddus yn gymorth i gyflawni'r ddyletswydd hon gan sicrhau dull cydgysylltiedig o gyrraedd nodau llesiant y Ddeddf.

Fy ngweledigaeth i yw sefydlu economi gylchol ar gyfer Cymru lle nad yw'r deunyddiau gwerthfawr sydd mewn gwastraff yn cael eu taflu i ffwrdd ond yn cael eu cadw i'w defnyddio'n gynhyrchiol am gyhyd â phosibl. Rhaid i ni hefyd sicrhau bod ffrydiau gwastraff yn cael eu cadw ar wahân ac yn lân yn eu tarddle er mwyn ei gwneud yn bosibl eu casglu ar wahân a'u hailgylchu i safon uchel gan gynyddu'r tebygolrwydd y byddant yn cael eu defnyddio gan ailbroseswyr a chwmnïau gweithgynhyrchu yng Nghymru.

Gall symud tuag at economi gylchol ar gyfer Cymru arbed arian i'r sector cyhoeddus a gall fod o gymorth i sicrhau deunyddiau crai i'w defnyddio gan fusnesau Cymru. Bydd hyn yn arwain at greu swyddi cynaliadwy, adeiladu busnesau cryf o safbwynt adnoddau, heb ddefnyddio mwy na'n siâr deg o adnoddau'r byd.

Rwy'n gwahodd ac yn croesawu barn yr holl randdeiliaid ar ein cynigion.



**Carl Sargeant**
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol

## Crynodeb

### Beth yw'r prif faterion?

Mae gan y sector cyhoeddus rôl bwysig i'w chwarae mewn cyrraedd yr amcanion atal gwastraff, ailddefnyddio ac ailgylchu a nodir yn 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff ' (TZW). Mae'r Cynllun Sector Cyhoeddus hwn yn nodi targedau perthnasol y sector a pholisïau Llywodraeth Cymru, rhwymedigaethau deddfwriaethol ac eraill sy'n berthnasol i'r sector. Mae'r cynllun yn darparu crynodeb o'r camau gweithredu ar gyfer y sector. Mae'n ymwneud â'r cyfnod hyd at garreg filltir gyntaf TZW sef 2025.

Y dull ar gyfer Cynllun y Sector Cyhoeddus yw cymryd camau ymlaen yn y pedwar maes allweddol canlynol:

i) Atal gwastraff
- Sicrhau bod dull tymor hir o ymdrin â chynaladwyedd yn cael ei fabwysiadu o fewn y sector cyhoeddus.
- Lleihau ôl troed ecolegol a charbon y gwastraff yn y sector, yn bennaf drwy arferion caffael cynaliadwy, effeithiol, gan gynnwys ailddefnyddio cynhyrchion ac ymestyn / cynyddu oes cynhyrchion i'r eithaf.

ii) Paratoi ar gyfer ailddefnyddio
- Gwella, hyrwyddo a datblygu'r ffordd y caiff eitemau eu paratoi i'w hailddefnyddio a'u hailddosbarthu, er mwyn diogelu adnoddau naturiol a chyfyngu ar gynhyrchu gwastraff, a all achosi problemau, o'r sector cyhoeddus.

iii) Ailgylchu
- Gwneud y gorau o'n hadnoddau gwerthfawr drwy wella'r gwaith o wahanu deunyddiau blaenoriaeth ar y cychwyn a'u hailgylchu i safon uchel o fewn y sector cyhoeddus, (yn unol â gofynion Cyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff 2015).
- Llwyddo i ailgylchu 90 y cant o ddeunyddiau blaenoriaeth a chyfradd ailgylchu o 70 y cant yn gyffredinol erbyn 2025 a chynyddu'r cyfleoedd ar gyfer 'ailgylchu wrth fynd' ar gyfer ymwelwyr cyhoeddus i swyddfeydd, cyfleusterau a digwyddiadau'r sector cyhoeddus.

iv) Adfer a gwaredu arall
- Adennill ynni a gwerth adnoddau, na ellir eu hailgylchu.
- Dileu'r gwastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi drwy weithredu ar atal, ailddefnyddio ac ailgylchu gwastraff.

### Ble rydym ni'n awr?

Mae'r sector cyhoeddus wedi gwneud cynnydd da o ran gwella ei reolaeth ar wastraff ac effeithlonrwydd adnoddau; fodd bynnag, mae peth pellter eto i fynd i gyrraedd y targed o ailgylchu 70 y cant a osodwyd yn TZW. Y gyfradd ailgylchu bresennol ar gyfer y sector cyhoeddus yw oddeutu 44 y cant.

### Y dystiolaeth dros newid

Rhydd Arolwg Gwastraff Diwydiannol a Masnachol 2012, a gomisiynwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru, ddata ar y sector cyhoeddus, wedi ei dorri i lawr yn dri is-sector):

- 'Gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn, nawdd cymdeithasol gorfodol'
- 'Addysg'
- 'Gweithgareddau iechyd dynol a gwaith cymdeithasol'

Yn 2012, amcangyfrifir bod y sector cyhoeddus yng Nghymru wedi cynhyrchu tua 269 mil o dunelli o wastraff. O hwn, paratowyd 44% ar gyfer ei ailddefnyddio / ei ailgylchu / ei gompostio ac aeth 44% i safle tirlenwi.

O'r tri is-sector, 'Gweithgareddau iechyd dynol a gwaith cymdeithasol' sy’n cynhyrchu’r swm mwyaf o wastraff (124 mil tunnell), gydag 'Addysg' (101 mil tunnell) yn dilyn ac wedyn 'Gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn, nawdd cymdeithasol gorfodol' (44 mil tunnell).

Adroddwyd gan Drysorlys EM bod gwariant y sector cyhoeddus ar reoli gwastraff yng Nghymru yn ystod 2012/13 yn £397 miliwn, oddeutu 1.3 y cant o gyfanswm gwariant y sector cyhoeddus (£29,848 miliwn).

### Cynigion Penodol

Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu model effeithiol ar gyfer creu dull o sbarduno’r math hwn o newid tymor hir, a elwir yn ddull y "Pedwar datganiad amgylcheddol" (Pedair E)[1]https://ssl.translatoruser.net/bv.aspx?from=en&to=cy&a=https%3A%2F%2Fssl.translatoruser.net%2Fbvsandbox.aspx%3F%26dl%3Den%26from%3Den%26to%3Dcy%23_ftn1. Ffordd o weithio yw hyn drwy’r dylanwadau y mae angen iddynt weithredu gyda'i gilydd er mwyn sbarduno newid. Ar gyfer y cynllun sector hwn, mae nifer o gamau gweithredu allweddol wedi eu nodi a’u trefnu gan ddefnyddio model y 4E. Bydd y rhain wedyn yn sail i gyfres o weithredoedd mwy manwl.

Mae'r cynllun hwn yn nodi meysydd i'w gwella ar gyfer y sector cyhoeddus yn gyffredinol. Er mwyn gweithredu unrhyw newidiadau bydd angen i bob is-sector ganfod ei fan cychwyn penodol a gosod targedau penodol, mesuradwy, cyraeddadwy, realistig ac amserol (SMART) ar gyfer gwella ar sail y gwelliannau a amlinellwyd yn y 4E yn Nhabl 1.

- Bydd angen i bob is-sector sefydlu man cychwyn fel y gellir pennu targedau realistig ar gyfer atal gwastraff.

[1]*A framework for pro-environmental behaviours*, Defra 2008. Rydym yn cyfeirio at ddull y 4E yn ein canllawiau a’n cyngor i gefnogi’r Siarter Datblygiad Cynaliadwy.

- Bydd angen i bob is-sector ystyried sut orau i weithredu'r camau a nodir o fewn model y 4E a datblygu rhaglenni gweithredu eu his-sector.

- Bydd angen i bob is-sector sefydlu targedau ar gyfer gwella.

Er cydnabod gwerth ailgylchu ac adennill ynni, er mwyn gweld dyfodol diwastraff a byw ‘un blaned’, mae’n hanfodol ein bod yn gwneud gwell defnydd o’r adnoddau sydd ar gael i ni, Yr unig ffordd i hyn ddigwydd yw newid ein hymddygiad a chanolbwyntio ein hymdrech ar hanner uchaf yr hierarchaeth – atal gwastraff, ailddefnyddio a pharatoi ar gyfer ailddefnyddio.

**Tabl 1 Y gweithgareddau allweddol a nodwyd ar gyfer eu hystyried mewn rhaglenni gwella penodol i is-sector (gan ddefnyddio model y 4E)**

| **Annog**<br>*Annog drwy ddulliau cadarnhaol, deddfwriaeth a newid ymddygiad* | **Ymgysylltu**<br>*Cyrraedd allan i ymgysylltu â phartneriaid* |
|---|---|
| 1. Cynhyrchu canllawiau i annog newid mewn ymddygiad / agwedd yn y sector cyhoeddus er mwyn rhoi blaenoriaeth uwch i leihau / atal gwastraff.<br>2. Sicrhau bod pob safle yn gwahanu ei ddeunyddiau gwastraff yn y fan a'r lle a bod contractau gwastraff wedi'u sefydlu ar gyfer casglu'r deunyddiau hyn ar wahân - i sicrhau bod y sector a'i gontractwyr gwastraff yn cyfarfod â'r gofyn i gasglu gwastraff ar wahân ac ailgylchu i safon uchel yn unol ag Erthygl 11 o Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff yr UE a'r cynigion yn y Bil Amgylchedd (datblygu canllawiau).<br>3. Sicrhau bod cyfleusterau 'ailgylchu wrth fynd' wedi eu gosod ym mhob man lle mae'r cyhoedd yn ymweld, yn swyddfeydd y sector cyhoeddus, cyfleusterau a digwyddiadau.<br>4. Annog cyfleusterau arlwyo'r sector cyhoeddus yng Nghymru i leihau ac ailgylchu eu gwastraff bwyd, ac ymuno â Chytundeb Lletygarwch a Gwasanaeth Bwyd (HAFSA) Cymru. http://www.wrap.org.uk/content/hospitality-and-food-service-agreement-3<br>5. Datblygu mentrau newid ymddygiad er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r hierarchaeth gwastraff a gyrru'r sector cyhoeddus i symud y tu hwnt i ailgylchu tuag at atal gwastraff. Caiff 'ailgylchu wrth fynd' (gan gynnwys gwahanu deunyddiau blaenoriaeth ar y cychwyn) ei hyrwyddo ymhlith defnyddwyr gwasanaethau'r sector cyhoeddus ac mewn digwyddiadau a ariennir gan y sector cyhoeddus.<br>6. Annog lleihau gwastraff, ailgylchu o safon uchel, benthyca ac ailddefnyddio cynhyrchion fel amodau grantiau'r sector cyhoeddus.<br>7. Annog ysgolion, colegau a phrifysgolion i sefydlu rhaglenni atal gwastraff gyda chyfranogiad gweithredol y disgyblion / myfyrwyr, ac edrych am gysylltiadau â'r gymuned leol.<br>8. Cynhyrchu canllawiau i'r sector cyhoeddus sefydlu man cychwyn perfformiad ar gyfer gosod targedau gwella.<br>9. Annog y sector cyhoeddus i ddefnyddio system 'edoc'[2] i adrodd am ddyletswydd gofal. | 1. Sicrhau aliniad â gofynion adrodd Deddf Llesiant cenedlaethau'r Dyfodol.<br>2. Ceisio cael cydweithrediad rhwng y sector cyhoeddus yng Nghymru a'i gadwyn gyflenwi i leihau gwastraff a chael modelau busnes mwy cynaliadwy.<br>3. Ymgysylltiad rhwng yr Awdurdodau Lleol a chyrff eraill y sector cyhoeddus gan gynnwys Byrddau Iechyd i edrych i mewn i gyfleoedd darparu gwasanaethau ac adolygu a goresgyn rhwystrau a ganfyddir ar ffordd caffael. |

[2] http://edoconline.co.uk/

| **Galluogi**<br>*Darparu'r addysg, y sgiliau, y polisïau a'r seilwaith angenrheidiol i wneud ffyrdd o fyw cynaliadwy'n bosibl* | **Gosod Esiampl**<br>*Dathlu llwyddiant y rheiny sy'n arwain y ffordd gyda phrosiectau a chynnyrch blaengar* |
|---|---|
| 1. Edrych ar ddewisiadau ar gyfer datblygu prosesau caffael cynaliadwy er mwyn dylanwadu ar gylch oes y gadwyn gyflenwi o brynu i ddefnyddio ac i'r defnydd terfynol / dewisiadau difa.<br>2. Nodi a thargedu ffrydiau gwastraff sy'n achosi problemau o fewn y sector e.e. gwastraff clinigol o is-sector gofal iechyd.<br>3. Adeiladu ar ymgyrch atal gwastraff flaenorol y sector cyhoeddus er mwyn sicrhau bod yr offer a'r gefnogaeth oedd ar gael bryd hynny yn cael eu hadolygu, eu diweddaru ac ar gael i'r holl sefydliadau yn y sector cyhoeddus.<br>4. Archwilio mecanweithiau gyda Gwerth Cymru er mwyn sicrhau bod grym caffael cyhoeddus Cymru yn sicrhau canlyniadau cynaliadwy a chost effeithiol i fusnesau Cymru yn y gadwyn gyflenwi, er mwyn iddynt ddatblygu cynnyrch a gwasanaethau mwy cynaliadwy, gan ddefnyddio adnoddau'n fwy effeithlon, Mae hyn yn cynnwys defnyddio deunyddiau wedi eu hailgylchu i safon uwch (gan gynnwys compost mewn uwchbridd a ddefnyddir wrth dirlunio), ac wedi eu dylunio i gael eu hailddefnyddio, bod yn hawdd eu trwsio ac yn hawdd eu tynnu ar wahân a'u hailgylchu.<br>5. Edrych ar ffyrdd i gynyddu'r gwaith o ailddefnyddio a pharatoi eitemau gwastraff a gynhyrchir gan y sector cyhoeddus yng Nghymru ar gyfer eu hailddefnyddio, gan gryfhau, lle bo modd, y cysylltiadau â mentrau cymdeithasol. | 1. Datblygu gwaelodlin o fentrau effeithlonrwydd adnoddau ac arferion rheoli gwastraff yn gynaliadwy ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru<br>2. Adeiladu ar Gytundeb y Sector Lletygarwch a Gwasanaeth Bwyd er mwyn sicrhau bod pob corff yn y sector cyhoeddus yng Nghymru a'u cyflenwyr bwyd yn cymryd rhan.<br>3. Drwy weithgareddau caffael gall y sector cyhoeddus arwain drwy esiampl drwy gyrraedd ei nodau ei hun ac arbed arian drwy atal gwastraff, ailddefnyddio ac ailgylchu<br>4. Gosod targedau gwella mewnol ymestynnol ar gyfer lleihau gwastraff ac atal gwastraff.<br>5. Monitro ac adrodd am gynnydd yn erbyn targedau a chofnodi'r buddion cysylltiedig a chyfraniadau at gyflawni'r nodau llesiant fel y'u disgrifiwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.<br>6. Arwain drwy esiampl gan weithredu systemau rheoli amgylcheddol i reoli effeithiau amgylcheddol yn well. |

## Y Canlyniadau a Ddisgwylir

O ganlyniad i weithredu'r cynllun, disgwylir y canlyniadau canlynol:

- Cydymffurfio â gofynion Cyfarwyddeb yr UE a Llywodraeth Cymru.
- Cyrraedd targedau ailgylchu ac atal gwastraff a osodwyd yn Tuag at Ddyfodol Diwastraff.
- Gwella effeithlonrwydd gwastraff ac adnoddau i'r sector cyhoeddus gyda'r posibilrwydd o wneud arbedion effeithlonrwydd.
- Arwain drwy esiampl mewn gweithgaredd caffael ac arfer gorau amgylcheddol.
- Llywio newidiadau cadarnhaol yn y ffordd y mae'r sector cyhoeddus yn caffael nwyddau a gwasanaethau i gyflawni amcanion amgylcheddol a chynaladwyedd ochr yn ochr â chyrraedd nodau Llesiant fel y'u hamlinellwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.
- Y sector cyhoeddus yn gwneud cyfraniad cynyddol tuag at gynhyrchu deunydd eildro o safon uchel i'w ddefnyddio gan ailbroseswyr a busnesau gweithgynhyrchu Cymru.
- Cynhyrchu deunydd eildro o safon uchel y gellir ei ddefnyddio mewn proses cylch caeëdig (fel uchod) gan gyfrannu at ddatblygu economi gylchol i Gymru.
- Sicrhau buddion o ran atal gwastraff, defnyddio cynnyrch yn hwy, darganfod man gwerthu ar gyfer eitemau y gellir eu hailddefnyddio sy'n gwella'r canlyniadau cymdeithasol i bobl Cymru.
- Gwell cydweithredu rhwng cyrff cyhoeddus i edrych i mewn i gyfleoedd ar gyfer arbedion mewn contractau rheoli gwastraff ac effeithlonrwydd adnoddau.
- Drwy waith caffael y sector cyhoeddus bydd busnesau Cymru, sydd yn y gadwyn gyflenwi, yn cael eu hannog i ddatblygu cynnyrch a gwasanaethau mwy cynaliadwy gan ddefnyddio adnoddau'n fwy effeithlon, gan gynnwys deunydd eildro o safon uwch.

## Cwestiynau

**Cwestiwn 1**
Ydych chi'n meddwl y dylai'r sector cyhoeddus, drwy ei weithgareddau caffael, drwy gyfrwng ei gadwyn gyflenwi, annog datblygu cynnyrch a gwasanaethau mwy cynaliadwy, sy'n defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon, gan gynnwys yr angen i gael mwy o gynnwys eildro yn y cynhyrchion sy'n cael eu caffael?

**Cwestiwn 2**
Ydych chi'n meddwl y dylid ei gwneud yn orfodol i bob corff sector cyhoeddus weithredu systemau rheoli amgylcheddol?

**Cwestiwn 3**
Ydych chi'n meddwl y dylai'r system edoc gael ei defnyddio gan bob sefydliad sector cyhoeddus i reoli gofynion adrodd am ddyletswydd gofal? Os ydych yn meddwl y dylai, ydych chi'n meddwl y dylai hyn fod yn orfodol?

**Cwestiwn 4**:
Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â hwy, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny:

Rhowch eich sylwadau yma:

Mae'n bosibl y bydd ymatebion i ymgynghoriad yn cael eu cyhoeddi - ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Pe bai'n well gennych i'ch ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, ticiwch y blwch: ☐

---

## Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Eich enw:

Sefydliad (os yw'n berthnasol):

E-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

**Adran 1: Gosod y darlun**

**Adran 2: Canlyniadau Tuag at Ddyfodol Diwastraff (TZW) – adeiladu dyfodol cynaliadwy**

**Adran 3: Cerrig milltir TZW, targedau a diweddariad ar gynnydd**

**Adran 4: Yr hyn y mae Cynllun Gwastraff ac Effeithlonrwydd Adnoddau'r Sector Cyhoeddus yn ymdrin ag ef ac at bwy y mae'r cynllun wedi ei anelu?**

**Adran 5: Yr heriau yr ydym yn eu hwynebu**

**Adran 6: Y Sefyllfa Bresennol**

**Adran 7: Targedau'r Sector Cyhoeddus a Sicrhau Canlyniadau**

**Adran 8: Y gweithgarwch presennol a meysydd gwella ar gyfer y sector cyhoeddus**

**Adran 9: Camau gweithredu arfaethedig i'r Sector Cyhoeddus**

**Adran 10: Sut y caiff y newid ei gynnal a'i fonitro**

# Adran 1: Gosod y darlun

## Pwrpas 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff' a'r Cynlluniau Sector

### Fframwaith Effeithlonrwydd Adnoddau a Rheoli Gwastraff ar gyfer Cymru

Tuag at Ddyfodol Diwastraff (TZW) – Hon yw'r ddogfen strategaeth wastraff drosfwaol ar gyfer Cymru. Mae'n egluro sut y byddwn yn adeiladu ar y llwyddiannau a gyflawnwyd drwy 'Yn Gall gyda Gwastraff' (y strategaeth wastraff flaenorol) ac mae'n disgrifio fframwaith ar gyfer effeithlonrwydd adnoddau a rheoli gwastraff o hyn i 2050. Mae'n nodi'r canlyniadau y dymunwn eu sicrhau, mae'n gosod targedau lefel uchel ac yn egluro'r dull cyffredinol o gyflawni'r targedau hyn.

### Adeiladu dyfodol cynaliadwy

Mae TZW yn disgrifio'r canlyniadau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y bydd effeithlonrwydd adnoddau a rheoli gwastraff yn eu sicrhau a sut y byddant yn cyfrannu at ddyfodol cynaliadwy.

### Map ffordd ar gyfer y sectorau

Rydym wedi cyhoeddi Cynlluniau Sector a'r Rhaglen Atal Gwastraff sy'n cefnogi strategaeth TZW.  Rhydd y dogfennau ategol fanylion pellach am sectorau penodol a'r heriau yr ydym yn eu hwynebu yng Nghymru o ran effeithlonrwydd adnoddau, rheoli gwastraff ac atal gwastraff. Mae'r cynlluniau a'r rhaglen yn cynnig map ffordd i sectorau penodol, Llywodraeth Cymru ac eraill wrth i ni gyflawni gweithgareddau fydd yn cyfrannu at sicrhau'r canlyniadau yn y TZW.

Ceir manylion y Cynlluniau Sector a'r rhaglen Atal Gwastraff yn y safleoedd isod:

http://Cymru.gov.uk/topics/environmentcountryside/epq/waste_recycling/bysector/?lang=en

http://Cymru.gov.uk/topics/environmentcountryside/epq/waste_recycling/prevention/waste-prevention-programme/?lang=en

### Map ffordd penodol ar gyfer y sector cyhoeddus

Mae'r Cynllun Sector Cyhoeddus hwn yn tynnu sylw at y targedau perthnasol i'r sector, polisïau Llywodraeth Cymru, dyletswyddau deddfwriaethol ac eraill sy'n berthnasol i'r sector. Mae'n cynnwys cynigion sut i wella ar gyfer y sector cyhoeddus o ran y newidiadau angenrheidiol i gyrraedd y targedau atal gwastraff ac ailgylchu sydd wedi eu cyhoeddi. Mae'n ymdrin â'r cyfnod hyd at garreg filltir gyntaf TZW sef, 2025.

## Cyflawni rhwymedigaethau cyfreithiol yr UE a'r DU

Mae TZW, y Cynlluniau Sector a'r Rhaglen Atal Gwastraff wedi eu bwriadu i gyfarfod â'n dyletswyddau dan gyfraith yr UE a'r DU[3] yn enwedig gyda golwg ar y ddyletswydd statudol i gynhyrchu cynllun rheoli gwastraff ar gyfer Cymru; ac ateb y gofynion allweddol ar Aelod-wladwriaethau'r UE gyda golwg ar atal gwastraff, ailddefnyddio ac ailgylchu fel y disgrifiwyd yn y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff.

## Cydymffurfio â gofynion Cyfarwyddeb yr UE a Llywodraeth Cymru

Mae gan y sector cyhoeddus ran bwysig i'w chwarae o ran cyflawni'r amcanion atal gwastraff, ailddefnyddio ac ailgylchu a eglurwyd yn TZW a'r Rhaglen Atal Gwastraff. Yn Adran 9 rydym wedi awgrymu camau gweithredu ar gyfer y sector cyhoeddus i'n cynorthwyo i gyflawni'r amcanion yn TZW.

## Adolygiad o'r Strategaeth Gwastraff

Mae dyletswydd statudol arnom i gynhyrchu strategaeth gwastraff a dyletswydd hefyd i adolygu ein cynllun gwastraff bob chweched blwyddyn. Mae adolygiad o TZW yn mynd rhagddo a threfnwyd i gyhoeddi adroddiad ym mis Mehefin 2016.

[3] Mae dyletswydd statudol ar Lywodraeth Cymru i lunio strategaeth wastraff dan reoliadau 7 ac 8 o Reoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011.

# Adran 2: Canlyniadau Tuag at Ddyfodol Diwastraff – adeiladu dyfodol cynaliadwy

Mae adeiladu dyfodol cynaliadwy yn sylfaenol i'n dull. Mae'r canlyniadau yr ydym yn anelu at eu sicrhau drwy weithredu ein strategaeth a'n cynlluniau, ac a fydd yn gymorth i'r sector cyhoeddus gyflawni ei nodau, yn seiliedig ar ein hegwyddorion datblygu cynaliadwy.

## Y nodau llesiant sy'n fframio'r strategaeth hon a chynlluniau a pholisïau yn y dyfodol

Cafodd TZW a'r cynlluniau sector a gyhoeddwyd hyd yn hyn eu datblygu yng nghyd-destun Cynllun Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru '*Cymru'n Un: Un Blaned'* a'i nodau llesiant cysylltiedig. Mae'r cynllun hwn yn cymryd i ystyriaeth y nodau llesiant newydd sydd bellach yn fframio datblygiad holl bolisi Llywodraeth Cymru drwy gymhwyso Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

## Amgylchedd cynaliadwy

Dengys 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff' sut y byddwn yn lleihau effaith gwastraff yng Nghymru nes dod o fewn ein terfynau amgylcheddol[4] drwy ganolbwyntio ar leihau ôl troed ecolegol gwastraff hyd at lefelau 'un blaned' erbyn 2050**.** Bydd hyn yn lleihau effaith y newid yn yr hinsawdd o ganlyniad i weithgareddau gwastraff, yn sicrhau defnyddio a chynhyrchu mewn ffordd gynaliadwy, cynnal a gwella ein heconomi, a chynorthwyo i reoli a diogelu adnoddau'r blaned.

I wneud hyn:

- Mae angen i ni ganolbwyntio ar atal gwastraff (gan gynnwys ailddefnyddio) a mabwysiadu dulliau mwy cynaliadwy o ddefnyddio a chynhyrchu.

- Pan fydd gwastraff yn cael ei gynhyrchu, mae angen i ni ganolbwyntio ar baratoi cymaint ag sydd modd i'w ailddefnyddio a lefelau uchel iawn o ailgylchu o safon uchel. Ailgylchu o safon uchel, ar gyfer pob deunydd, yw'r dewisiadau ailgylchu sy'n ildio'r canlyniadau amgylcheddol gorau yn gyffredinol (BOEO), gan gymryd dichonolrwydd technegol a hyfywedd economaidd i ystyriaeth. Enghraifft o ailgylchu safon uchel yw ailgylchu 'cylch caeëdig' pan gaiff deunyddiau gwastraff

[4] Terfynau Amgylcheddol – *'Our Vision of a Sustainable Wales is one where Wales: lives within its environmental limits, using only its fair share of the earth's resources so that our ecological footprint is reduced to the global average availability of resources, and we are resilient to the impacts of climate change' (Source: One Wales: One Planet: A new sustainable development scheme for Wales)*

eu hailddefnyddio i gymryd lle yr un deunydd crai newydd, ac uwch-gylchu, pan fydd deunydd gwastraff, er enghraifft, ag ynni isel o'i fewn yn cael ei ddefnyddio i gymryd lle deunydd crai newydd sydd ag ynni uwch o'i fewn (er enghraifft, insiwleiddiad ffibr cellwlos wedi ei wneud o bapur gwastraff yn cael ei ddefnyddio yn lle insiwleiddiad ffibr gwydr).

- Mae'r egwyddorion hyn yn cyd-fynd â'r "hierarchaeth gwastraff" sy'n gofyn am osod y pwyslais mwyaf ar atal ac ailddefnyddio gwastraff, wedyn ailgylchu, yna adennill ynni ac yn olaf gwaredu i dirlenwi, sef y flaenoriaeth isaf.

## Cymdeithas sy'n ffynnu

Bydd ein gweithredoedd ar effeithlonrwydd adnoddau a rheoli gwastraff yn gymorth i ddatblygu cymdeithas ffyniannus. Hynny yw, cymdeithas lle mae pawb yn cael y cyfle i gael safon byw resymol, waeth ble y mae'n byw na beth y mae'n ei wneud, a lle mae gan bobl y sgiliau y mae arnynt eu hangen, ar bob lefel, i'w galluogi i wneud y cyfraniad gorau posibl i'r economi ac i'w cymunedau, a chyflawni eu potensial personol. Dengys TZW sut y bydd ein gweithredoedd ar effeithlonrwydd adnoddau a rheoli gwastraff yn gymorth i ddatblygu economi gynaliadwy, effeithlon o ran adnoddau sy'n:

- Darparu mwy o swyddi o fewn y diwydiant gwastraff a rheoli adnoddau ar draws ystod o lefelau sgiliau yng Nghymru ac yn cynyddu nifer y swyddi gwyrdd sgiliau uchel.
- Gallu gwrthsefyll galwadau cystadleuol yn y dyfodol, gan gynnwys costau cynyddol a sicrwydd cyflenwad o adnoddau materol byd-eang. Bydd hyn yn arbed arian ac yn cynnal neu hyd yn oed yn cynyddu elw drwy reoli adnoddau'n fwy effeithlon.

## Cymdeithas deg a chyfiawn

Mae'r cynlluniau sector yn gweithredu'r targedau, y camau gweithredu a'r polisïau yn TZW mewn ffordd fydd, drwy weithredu ar atal gwastraff, ailddefnyddio ac ailgylchu, yn galluogi dinasyddion i:

- gyflawni eu llawn botensial dynol a byw yn rhydd o dlodi, gwahaniaethu, ofn neu gamdriniaeth,
- cyfoethogi eu cymunedau,
- cyfrannu tuag at les Cymru,
- gwella eu hamgylchedd lleol,
- gwella ansawdd eu bywyd yn weithredol.

Bydd pobl Cymru yn gallu cyfrannu at atal gwastraff, ailddefnyddio ac ailgylchu, waeth ble y maent yn byw ac yn gweithio, beth yw ansawdd eu hiechyd, eu gallu, eu symudedd na'u hamgylchiadau personol.

# Adran 3: Cerrig milltir a thargedau 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff'

Er mwyn sicrhau'r canlyniadau yr ydym yn eu dymuno, rydym yn gweithio tuag at ddwy garreg filltir allweddol:

## 2025: Tuag at Ddyfodol Diwastraff.

Mae 2025 yn gam canolraddol ar y ffordd tuag at y 'dyfodol diwastraff', yr ydym yn ei ddiffinio fel diweddbwynt uchelgeisiol, pan fydd pob gwastraff sy'n cael ei gynhyrchu yn cael ei ailddefnyddio neu ei ailgylchu fel adnodd, heb fod angen tirlenwi o gwbl nac adennill ynni. Erbyn 2025, byddwn wedi lleihau gwastraff yn sylweddol (o 27% yn erbyn gwaelodlin 2007) drwy weithredu ar ddefnyddio a chynhyrchu cynaliadwy a byddwn yn rheoli unrhyw wastraff a gynhyrchir mewn ffordd sy'n gwneud y gorau o'n hadnoddau gwerthfawr.

Bydd hyn yn golygu y byddwn yn cynyddu ailgylchu i'r eithaf (70% o leiaf) ac yn lleihau'r swm o wastraff a gynhyrchir (<30%), a dileu tirlenwi gymaint ag sydd modd (<5%).

## 2050: Cyflawni Dyfodol Diwastraff.

Erbyn 2050 byddwn yn cynhyrchu oddeutu 65% yn llai o wastraff nag yr oeddem yn ei gynhyrchu yn 2007, gan anelu at ddwyn gwastraff gweddilliol i ben drwy gymryd camau gweithredu i atal gwastraff a defnyddio a chynhyrchu mewn ffordd gynaliadwy, fel bod pob gwastraff (h.y. 100%) sy'n cael ei gynhyrchu yn cael ei ailddefnyddio neu ei ailgylchu fel adnodd (ac felly gyflawni gobeithion athroniaeth 'dim gwastraff').

# Adran 4: Yr hyn y mae Cynllun y Sector Cyhoeddus yn ymdrin ag ef ac at bwy y mae'r cynllun wedi ei anelu?

Mae'r Cynllun Gwastraff ac Effeithlonrwydd Adnoddau hwn ar gyfer y Sector Cyhoeddus yn ymdrin â gweithgareddau caffael a'r gwastraff a gynhyrchir yn bennaf drwy weithgareddau Llywodraeth Cymru a chyrff a ariennir gan Lywodraeth Cymru sy'n darparu gwasanaethau cysylltiedig â gofal iechyd, addysg, llywodraeth leol, yr amgylchedd, gweinyddu cyfiawnder ac ymateb i argyfyngau. Mae hefyd yn ymestyn i Lywodraeth y DU a chyrff a noddir gan Lywodraeth y DU yng Nghymru sydd â swyddfeydd yng Nghymru ac sy'n darparu gwasanaethau, gan fod ganddynt hwythau swyddogaeth bwysig i'w chyflawni o ran cefnogi nodau ac amcanion y cynllun sector hwn – maent i gyd yn cynhyrchu gwastraff yng Nghymru sy'n dod o dan TZW ac sydd angen ei reoli yn unol â TZW.

Mae cyrff a ariennir gan Lywodraeth Cymru yn cynnwys y rheiny a nodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015:

- Llywodraeth Cymru
- Yr Amgueddfa Genedlaethol
- Cyngor y Celfyddydau
- Cyngor Chwaraeon Cymru
- Y Llyfrgell Genedlaethol
- Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
- Prifysgolion a Sefydliadau Addysg Bellach
- Ymddiriedolaethau'r GIG
- Ymddiriedolaethau Ambiwlans
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Awdurdodau Tân ac Achub
- Awdurdodau Lleol
- Byrddau Iechyd Lleol
- Cynghorau Cymuned
- Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

Mae hefyd wedi ei anelu at Lywodraeth y DU a chyrff a noddir gan Lywodraeth y DU yng Nghymru a all gynnwys:

- Gwasanaethau cyfreithiol a barnwrol i gynnwys gwasanaethau llys, carchardai, tribiwnlysoedd, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, Gwasanaeth Erlyn y Goron
- DVLA
- Swyddfeydd adrannau o Lywodraeth y DU ac asiantaethau

Mae'r cynllun yn mynd i'r afael â deunyddiau gwastraff sy'n casglu yn safleoedd cyrff y sector cyhoeddus oherwydd presenoldeb gweithwyr, contractwyr neu ddinasyddion sy'n defnyddio'r cyfleusterau sydd ar gael ar y safleoedd.

Mae'r mathau o wastraff sydd wedi eu cynnwys yn y cynllun sector hwn yn cynnwys:

- Holl wastraff cyffredinol swyddfeydd[5] a gynhyrchir gan weithwyr cyrff y sector cyhoeddus, p'un a yw'r gwastraff yn cael ei gasglu a'i reoli gan gontractwyr preifat neu gan awdurdodau lleol[6].

- Pob eitem swyddfa fawr gan gynnwys dodrefn a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

- Pob offer trydan ac electronig gwastraff (WEEE).

- Yr holl wastraff bwyd a gynhyrchir ar safleoedd sefydliadau'r sector cyhoeddus neu o ganlyniad i ddigwyddiadau neu gyfarfodydd a gynhelir yn allanol sy'n cael eu hariannu gan sefydliadau'r sector cyhoeddus.

- Yr holl wastraff a gynhyrchir gan ddinasyddion sy'n defnyddio'r safleoedd a'r gwasanaethau a ddarperir gan sefydliadau'r sector cyhoeddus.

- Yr holl wastraff gofal iechyd a hylendid personol a gynhyrchir, er enghraifft, mewn ysbytai a chlinigau iechyd.

- Gwastraff cynnal tiroedd.

- Yr holl wastraff a gynhyrchir gan gontractwyr, gweithwyr neu drydydd partïon wrth ddarparu gwasanaethau i ddinasyddion ar ran y sector cyhoeddus gan gynnwys gwastraff adeiladu a dymchwel a gynhyrchir drwy weithgareddau adeiladu, gweithgareddau ailddodrefnu swyddfeydd, cynnal priffyrdd ac yn y blaen.

Mae'r gwastraff sydd heb ei gynnwys yn y cynllun sector hwn yn cynnwys:

- Gwastraff o gartrefi a busnesau a gesglir drwy gynlluniau casglu sy'n cael eu rhedeg gan awdurdodau lleol neu wastraff mewn safleoedd Mwynderau Trefol / Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartrefi. Mae'r rhain wedi eu cynnwys yn y Cynllun Sector Trefol.

---

[5] Diffinnir gan God Catalog Gwastraff Ewropeaidd (EWC) 20 03 01, gwastraff cymysg cyffredinol gan gynnwys gwastraff masnachol a gwastraff trefol

[6] Mae gwastraff o garchardai, cartrefi nyrsio, ysbytai, prifysgolion, ysgolion neu sefydliadau addysg eraill, a gesglir gan neu ar ran yr Awdurdod Lleol yn ganolbwynt i'r Cynllun hwn ond cyfeirir ato hefyd yng Nghynllun y Sector Trefol.

# Adran 5: Yr heriau yr ydym yn eu hwynebu

## Yr heriau newydd yr ydym yn eu hwynebu a'r heriau oedd yn bod eisoes

Cafodd y TZW a'r cynlluniau sector ategol eu datblygu i'n cynorthwyo ni yng Nghymru i gyfarfod â nifer o heriau sy'n bod eisoes ynghyd â heriau newydd a'r prif rai yw:

**Ôl-troed ecolegol** – Mae mesur ôl troed ecolegol yn mesur effaith y ffordd yr ydym yn defnyddio pethau ac yn cymharu hyn â gallu'r blaned i (a) darparu'r adnoddau sydd eu hangen a (b) ymdopi ag effaith y ffordd yr ydym yn byw ein bywydau. Pe bai pawb yn y byd yn byw fel yr ydym ni'n byw yng Nghymru, byddai angen bron i dair planed i ddarparu'r adnoddau angenrheidiol. Er mwyn i ni beidio â defnyddio mwy na'n cyfran deg, mae angen i ni leihau faint o adnoddau yr ydym yn eu defnyddio yng Nghymru i'r hyn sy'n cyfateb i werth un blaned. Mae rheoli ein gwastraff yn hanfodol bwysig i gyrraedd y nod hon gan ei fod yn gyfrifol am oddeutu 15% o ôl troed ecolegol Cymru. Y ffordd fwyaf effeithiol o leihau ôl troed ecolegol gwastraff yw atal gwastraff, wedyn ailddefnyddio ac yna ailgylchu.

**Newid yn yr hinsawdd** – Mae angen i ni leihau allyriadau'r nwyon tŷ gwydr a gynhyrchir o wastraff. Daw'r allyriadau uniongyrchol yn bennaf o ollwng nwyon (methan yn bennaf) a gynhyrchir gan wastraff bioddiraddadwy sy'n pydru mewn safleoedd tirlenwi. Mae gwastraff yn cyfrannu oddeutu 2.5% o allyriadau nwyon tŷ gwydr uniongyrchol yng Nghymru[7]. Mae'r gwastraff diraddadwy sy'n cynhyrchu methan mewn safleoedd tirlenwi yn cynnwys bwyd, llystyfiant, papur a chardbord.

**Atal gwastraff** – Mae arnom eisiau sefydlu economi gylchol yng Nghymru (gweler isod). Bydd y weledigaeth hon yn gofyn i ni ddefnyddio llai o adnoddau, sy'n golygu bod angen i'r cynhyrchion, yr ydym yn eu gwneud ac yn eu prynu, ddefnyddio llai o adnoddau wrth gael eu cynhyrchu a'u defnyddio. I'r sector cyhoeddus mae hyn yn golygu canolbwyntio ar gaffael cyhoeddus gwyrdd. Gweler Adran 8 am fanylion pellach. Rydym wedi gosod targedau lleihau gwastraff gwirfoddol ac wedi cyhoeddi Rhaglen Atal Gwastraff sy'n nodi ein camau gweithredu i sicrhau mwy o waith atal gwastraff yng Nghymru.

**Mynd i'r afael â thlodi drwy ailddefnyddio** – Gan fod angen llai o ddeunyddiau crai ar gyfer cynhyrchu nwyddau newydd, mae llai o gynhyrchion yn awr yn cael eu hanfon i safleoedd tirlenwi. Yn ôl dull cyfrif Buddion Ailddefnyddio WRAP (2015), arbedwyd, yn 2012 yn unig, 1.5 miliwn tunnell o $CO_2$(e) drwy ailddefnyddio yn y DU.

Mae dod o hyd i ddefnydd da ar gyfer offer/eitemau gwaith a nwyddau dros ben yn medru bod o gymorth i fynd i'r afael â thlodi, yn nhermau darparu nwyddau am ddim neu am bris isel i'r rheiny sydd mewn angen, a hefyd drwy ddarparu gwaith a hyfforddiant i'r rheiny sydd mewn anawsterau, gan gynnwys gwaith trwsio ac

ailddodrefnu. Byddwn yn annog gweithgynhyrchwyr a mân-werthwyr i ecoddylunio, cynhyrchu a gwerthu cynhyrchion sy’n hawdd eu trwsio neu eu huwchraddio.

Roedd dull cyfrifo Buddion Ailddefnyddio WRAP (2015) yn amcangyfrif y buddion canlynol o ailddefnyddio:

- Amcangyfrifir bod elusennau, mentrau cymdeithasol a sefydliadau trydydd sector eraill yn elwa £430 miliwn yn flynyddol o ailddefnyddio.
- Yn 2012 yn unig, roedd 11,000 o swyddi FTE (cyfwerth â llawn amser) yn cael eu darparu gan sefydliadau ailddefnyddio. Roedd gwirfoddolwyr yn y sector yn cyfrif am 15,700 rhagor o swyddi FTE. Yn dilyn hynny, daeth llawer o hyd i waith, gan arbed £93 miliwn i’r trethdalwr mewn budd-daliadau ac felly mae’n newyddion da i bawb.
- Drwy gadw nwyddau mewn cylchrediad yn hwy, a thrwy gynnig cynhyrchion mwy fforddiadwy, amcangyfrifir bod cartrefi yn y DU wedi elwa o £6 biliwn o’r sector ailddefnyddio.

Ffynhonnell: Rhaglen Weithredu Gwastraff ac Adnoddau (WRAP)[8]

**Diogelwch adnoddau** – Mae angen i ni sicrhau bod gennym ddigon o adnoddau, am bris fforddiadwy, i gynnal ein heconomi a’n ffordd o fyw. Drwy ddefnyddio adnoddau’n fwy effeithlon, drwy atal gwastraff a thrwy ailddefnyddio ac ailgylchu helaeth, bydd diogelwch deunyddiau yn well a cheir llai o ddibyniaeth ar adnoddau primaidd o’r tu allan i’r DU.

**Ansawdd da** – Mae’n bwysig ein bod yn ailgylchu yn y ffordd gywir er mwyn cael y buddion economaidd ac amgylcheddol y mae arnom eisiau eu sicrhau ar gyfer Cymru. Ailgylchu o safon uchel, ar gyfer pob deunydd, yw’r math o ailgylchu sy’n rhoi’r canlyniadau amgylcheddol gorau yn gyffredinol (BOEO), gan gymryd dichonolrwydd technegol i ystyriaeth a hyfywedd economaidd. Y ffordd orau i gyflawni hyn yw gwahanu deunyddiau gwastraff ar y cychwyn cyn iddynt gael eu hailgylchu. Mae hyn yn atal llygru ac yn sicrhau bod cymaint o wastraff ag sydd modd yn cael ei ailgylchu i safon uchel.

**Casglu ar wahân** – Conglfaen economi gylchol ac ailgylchu cylch caeedig/ansawdd da yw casglu pob deunydd ailgylchu allweddol ar wahân – er enghraifft, bwyd, pren, gwydr, papur, cardbord, metel a phlastig. Mae’r ddeddfwriaeth yn ei lle, ac mae mwy ar y gorwel, er mwyn sicrhau bod yr holl ddeunyddiau allweddol hyn yn cael eu casglu ar wahân yng Nghymru.

http://Cymru.gov.uk/consultations/environmentandcountryside/separate-waste-collection-guidance/?lang=en

http://Cymru.gov.uk/topics/environmentcountryside/consmanagement/natural-resources-management/environment-bill/?lang=en

[8] http://www.wrap.org.uk/content/partnerships-are-key-success

**Economi Gylchol** – Mae angen i ni sicrhau bod cynnyrch ac adnoddau yn dal i gael eu defnyddio gyhyd â phosibl drwy adennill, ailddefnyddio a thrwsio, ailgynhyrchu ac ailgylchu. Dim ond swm cyfyngedig o adnoddau sydd gennym yn y byd, ac mae ffyniant a'r defnydd o adnoddau ar gynnydd ar draws y byd datblygol. Felly, mae angen i ni ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael mewn ffordd fwy effeithlon. Yn ogystal â bod yn gymorth i gryfhau ein heconomi bydd economi gylchol hefyd yn creu swyddi newydd.

**Cylch caeëdig** – Mae hwn yn rhan o'r economi gylchol ac mae'n golygu defnyddio gwastraff i wneud cynhyrchion newydd heb newid nodweddion cynhenid y deunydd sy'n cael ei ailgylchu – adwaenir hwn hefyd fel ailgylchu o safon uchel. Mae enghreifftiau'n cynnwys ailgylchu potel blastig i botel blastig neu aloi arbenigol i aloi arbenigol. Gall hefyd gynnwys ailgylchu lle mae'r cynnyrch yn newid ond bod ansawdd y deunydd yn cael ei ddiogelu e.e. potel blastig wedi ei gwneud o PET yn cael ei hailgynhyrchu i greu tegan nau ddillad cynnes wedi eu gwneud o polymer. Ailgylchu cylch caeëdig sydd, yn gyffredinol, yn ildio'r canlyniadau cynaliadwy gorau, yn enwedig yn economaidd ac yn amgylcheddol.

**Dim tirlenwi ac ynni effeithlon iawn allan o wastraff ar gyfer gwastraff na ellir ei ailgylchu** – Lle mae yna eitemau o wastraff yn dal i fod, na ellir eu hatal yn ymarferol, eu hailddefnyddio na'u hailgylchu, mae'n well adennill ynni (yn effeithlon iawn) o'r gwastraff hwnnw na'i adael mewn safle tirlenwi. Byddwn yn cefnogi adennill ynni effeithlon iawn allan o wastraff gweddilliol, nad oes modd ei atal yn dechnegol, yn amgylcheddol nac yn ymarferol na'i ailddefnyddio, ei ailgylchu na'i adfer mewn ffordd arall.

**Dilyn hierarchaeth gwastraff** - Mae Erthygl 4 o Gyfarwyddeb ddiwygiedig Fframwaith Gwastraff yr UE (Cyfarwyddeb 2008/98/EC) yn gosod pum cam ar gyfer ymdrin â gwastraff, wedi eu gosod yn nhrefn eu heffaith amgylcheddol – yr 'hierarchaeth gwastraff': atal, paratoi i'w ailddefnyddio, ailgylchu, adennill mewn ffordd arall (gan gynnwys ynni) a gwaredu.

Mae dyletswydd ar fusnesau a chyrff cyhoeddus yn awr i gymhwyso'r hierarchaeth gwastraff pan fyddant yn gwneud penderfyniadau ynglŷn â'u gwastraff. Isod ceir dolen gyswllt i'r arweiniad yr ydym wedi ei gynhyrchu i gynorthwyo sefydliadau i gymhwyso'r hierarchaeth gwastraff.

http://Cymru.gov.uk/topics/environmentcountryside/epq/waste_recycling/publication/hierarchyguide/?lang=en

## Deddfwriaeth Newydd Cymru

### *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn cryfhau'r trefniadau llywodraethu presennol ar gyfer gwella llesiant Cymru i sicrhau bod anghenion presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau yn y dyfodol i ateb eu hanghenion eu hunain. Mae a wnelo â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Bydd y Ddeddf yn sicrhau bod

cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn cyflawni eu gweithgareddau mewn ffordd gynaliadwy fel y gallwn sicrhau Cymru gynaliadwy, yn awr ac yn y dyfodol.

## *Nodau Llesiant*

Er mwyn gwneud yn siŵr ein bod ni i gyd yn gweithio tuag at yr un weledigaeth, mae'r Ddeddf yn sefydlu saith nod llesiant. Y rhain yw Cymru ffyniannus, wydn, iachach, fwy cyfartal a chyfrifol o safbwynt byd-eang; gyda chymunedau cydlynol; Cymru o ddiwylliant byw a Chymraeg sy'n ffynnu. Mae'r nodau'n dangos y math o Gymru y mae arnom eisiau ei gweld. Gyda'i gilydd maent yn cyflwyno gweledigaeth gyffredin i'r cyrff cyhoeddus a restrwyd yn y Ddeddf weithio tuag ati.

Casgliad o nodau ydynt; mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn glir bod rhaid i'r cyrff cyhoeddus a restrwyd weithio i gyrraedd y nodau hyn i gyd, nid un neu ddwy yn unig.

## *Dyletswydd ar Gyrff Cyhoeddus*

Mae dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gyfrannu tuag at y nodau hyn yn yr hyn y maent yn ei wneud, a gwneud penderfyniadau mewn ffordd gynaliadwy. Disgwylir iddynt wneud hyn drwy feddwl am oblygiadau tymor hir yr hyn y maent yn ei wneud, meddwl am y saith nod, gweithio gyda chyrff eraill i ddod o hyd i atebion cynaliadwy, cynnwys pobl yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, ac atal problemau rhag digwydd.

Bydd y dyletswyddau newydd ar y cyrff cyhoeddus a enwyd yn golygu y bydd angen i sefydliadau wneud pethau gwahanol, yn ogystal â gwneud pethau mewn dull gwahanol. Er mwyn cynorthwyo sefydliadau i ennill llawer o fanteision drwy'r Ddeddf, disgwylir i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllaw statudol.

Ceir mwy o wybodaeth am y Ddeddf yn y fan hon:

http://Cymru.gov.uk/topics/people-and-communities/people/future-generations-bill/?lang=en

Bydd cymryd y camau gweithredu a nodwyd yn y cynllun hwn yn cyfrannu tuag at gyflawni'r nodau llesiant a nodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

## *Bil yr Amgylchedd*

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori, yn y Papur Gwyn, 'Tuag at Reoli Adnoddau Naturiol Cymru yn Gynaliadwy,' Adnoddau Naturiol: Ymgynghoriad ar gynigion ar gyfer Bil yr Amgylchedd.

Gwnaeth y Papur Gwyn gynigion oedd wedi eu bwriadu i ddarparu fframwaith statudol modern ar gyfer rheoli adnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy drwy ddeddfu ar gyfer proses fwy cydlynol a rhagweithiol i sicrhau manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol parhaus i Gymru.

Er mwyn cynyddu ailgylchu, yn enwedig o safleoedd annomestig, roedd y cynigion yn cynnwys rhoi'r pwerau i Weinidogion Cymru:

- Fynnu bod cynhyrchwyr gwastraff annomestig yn gwahanu gwastraff ailgylchadwy ar gyfer ei gasglu
- Mynnu bod casglwyr gwastraff yn casglu rhai mathau o wastraff drwy gasgliadau ar wahân
- Cyflwyno gwaharddiad ar gludo deunyddiau y gellir eu hailgylchu i safleoedd tirlenwi neu eu defnyddio i greu ynni
- Gwahardd cael gwared â gwastraff bwyd i garthffosydd o safleoedd annomestig.

Cafodd canlyniadau'r ymgynghoriad eu dadansoddi gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Papur Gwyn, yr ymatebion i'r ymgynghoriad a chrynodeb o'r ymatebion ar gael yn:

http://Cymru.gov.uk/consultations/environmentandcountryside/environment-bill-white-paper/?lang=en

Cyflwynwyd Bil yr Amgylchedd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Mai 2015 ac os bydd yn mynd drwy'r Cynulliad yn llwyddiannus mae wedi ei amseru i dderbyn Cydsyniad Brenhinol yng ngwanwyn 2016.

# Adran 6: Y sefyllfa bresennol

Mae'r adran hon yn disgrifio'r mathau a'r symiau o wastraff a gynhyrchir gan y sector cyhoeddus yng Nghymru, a sut y caiff y gwahanol fathau hynny o wastraff eu rheoli. Mae'n tynnu sylw at mor dda y mae'r sector yn perfformio mewn perthynas â rhai o'r targedau a ddisgrifir yn adran 7.

Mae'r adran hon hefyd yn cynnwys trafodaeth ynghylch y deunyddiau gwastraff blaenoriaeth ar gyfer y  sector cyhoeddus, fel y'u penderfynir gan ôl troed ecolegol y mathau o wastraff a'r ffordd y cânt eu rheoli. Cymerir y data o ddadansoddiad a wnaed gan Arup ar ran Llywodraeth Cymru.

## Gwastraff y Sector Cyhoeddus

Rhydd Arolwg Gwastraff Diwydiannol a Masnachol 2012, a gomisiynwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru, ddata ar y sector cyhoeddus, wedi ei dorri i lawr yn dri is-sector):

- 'Gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn, nawdd cymdeithasol gorfodol'
- 'Addysg'
- 'Gweithgareddau iechyd dynol a gwaith cymdeithasol'

Yn 2012, amcangyfrifir bod y sector cyhoeddus yng Nghymru wedi cynhyrchu tua 269 mil o dunelli o wastraff. O hwn, paratowyd 44% ar gyfer ei ailddefnyddio / ei ailgylchu / ei gompostio ac aeth 44% i safle tirlenwi[9].

O'r tri is-sector, 'Gweithgareddau iechyd dynol a gwaith cymdeithasol' sy'n cynhyrchu'r swm mwyaf o wastraff (124 mil tunnell), gydag 'Addysg' (101 mil tunnell) yn dilyn a 'Gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn, nawdd cymdeithasol gorfodol' (44 mil tunnell).

O ran paratoi ar gyfer ei ailddefnyddio / ei ailgylchu / ei gompostio, is-sector 'Addysg' sy'n perfformio orau (56%), gyda'r is-sector 'Gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn, nawdd cymdeithasol gorfodol' (55%) yn dilyn ac wedyn 'Gweithgareddau iechyd dynol a gwaith cymdeithasol' (30%).

Roedd 118,420 tunnell (oddeutu 40 y cant o'r holl wastraff a gynhyrchwyd) yn wastraff cymysg cyffredinol a anfonwyd i safleoedd tirlenwi:[10]

[9] Mae'r 12.4 y cant sy'n weddill yn driniaeth arall a 'dim yn gwybod'.
[10] Arolwg Gwastraff Diwydiannol a Masnachol 2012, a gomisiynwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru.

## Ôl Troed Ecolegol y Sector Cyhoeddus

Yn 2009, mesurwyd effaith Ôl Troed Ecolegol y sector cyhoeddus yng Nghymru ar ran Llywodraeth Cymru. Roedd y model a ddefnyddiwyd yn caniatáu datblygu darlun llawn o'r sector cyhoeddus yng Nghymru ac yn ei gwneud yn bosibl deall sut y mae'n gydgysylltiedig â'r holl sectorau eraill yn yr economi drwy gadwynau cyflenwi byd-eang.

Cyfrifwyd bod yr Ôl Troed Ecolegol cysylltiedig â gweithgareddau sector cyhoeddus Cymru oddeutu 1.7 miliwn hectar byd-eang ac mae'n cyfateb i 11 y cant o Ôl Troed Ecolegol cyfan Cymru. Yr Ôl Troed Carbon (a fynegir mewn allyriadau cyfwerth â CO2) yw'r rhan helaethaf o'r Ôl Troed Ecolegol ac amcangyfrifir ei fod yn rhoi cyfanswm o oddeutu 4.8 miliwn tunnell ($CO_2$(e)). Mae 72 y cant o ôl troed carbon y sector cyhoeddus yng Nghymru yn codi o ddefnyddio cynnyrch a gwasanaethau. Mae hyn yn amlygu pwysigrwydd datblygu arferion caffael mwy cynaliadwy o fewn y sector cyhoeddus.

Wrth ystyried gwahanol gyrff y sector cyhoeddus, dangosai'r astudiaeth mai gan y sector addysg y mae'r effaith ecolegol fwyaf gyda'r sector iechyd yn dynn ar ei ôl. Gyda'i gilydd mae'r ddau sector hwn yn cyfrannu 73 y cant o holl Ôl Troed Ecolegol y sector cyhoeddus. Yn achos y sectorau iechyd ac addysg, caffael cynnyrch a gwasanaethau sy'n cyfrannu at dros 80 y cant o'u heffaith gyfan.

Amcangyfrifid bod y gwastraff a gynhyrchid gan y sector cyhoeddus yn cael effaith oedd yn cyfateb i oddeutu 95,000 t $CO_2$(e) mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr, yn cyfrif am 5.5% o Ôl Troed Ecolegol y sector cyhoeddus.[11]

## Deunyddiau Blaenoriaeth ar gyfer y Sector Cyhoeddus

Er mwyn cynorthwyo Llywodraeth Cymru i gael gwell dealltwriaeth o effaith gwastraff yng Nghymru, comisiynwyd Ôl Troed Ecolegol gwastraff i gyd-fynd â *Tuag at Ddyfodol Diwastraff*. Dengys hwn ganlyniadau amgylcheddol yr hyn y mae pobl yng Nghymru yn ei brynu, yn ei ddefnyddio ac yn ei luchio i ffwrdd. Mae'n cymryd i ystyriaeth effaith cynhyrchion a gynhyrchir mewn gwledydd eraill ond sy'n cael eu defnyddio yng Nghymru. Mae hefyd yn cynnwys yr sy'n cael ei gyflawni drwy adennill deunyddiau a'u hailgylchu yn gynhyrchion newydd yn ogystal ag unrhyw ynni a adenillir o'r ffrwd gwastraff.

Er mwyn lleihau effaith gwastraff yng Nghymru i fod o fewn terfynau *Cymru'n Un: un Blaned*, bydd angen i ôl troed ecolegol gwastraff gael ei leihau o 75% erbyn 2050. I wneud hyn, bydd angen i ni ganolbwyntio ar atal gwastraff a ffyrdd mwy cynaliadwy o ddefnyddio a chynhyrchu; a, lle mae gwastraff yn cael ei gynhyrchu, mae angen i ni ganolbwyntio ar lefelau uchel iawn o ailgylchu, a sicrhau ei fod y math iawn o ailgylchu – h.y. un sy'n ildio deunydd eildro o safon uchel a chanolbwyntio ar ailgylchu'r deunyddiau fydd yn lleihau'r ôl troed fwyaf, neu 'ddeunyddiau

[11] Ôl Troed Ecolegol y Sector Cyhoeddus yng Nghymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Mai 2009

blaenoriaeth'. I'r sector cyhoeddus, y deunydd sydd â'r ôl troed ecolegol mwyaf yw gwastraff bwyd: bwyd, papur a chardbord, a chemegau.

Nid yw Arolwg Gwastraff Diwydiannol a Masnachol 2012 yn rhoi ffigur penodol ar gyfer cyfanswm y gwastraff bwyd a gynhyrchir gan y sector cyhoeddus yng Nghymru. Fodd bynnag, dangosodd astudiaeth gyfansawdd o wastraff diwydiannol a masnachol a gludwyd i safleoedd tirlenwi yng Nghymru yn 2007 fod oddeutu 17 y cant, ar gyfartaledd, o wastraff cymysg yn codi o wastraff bwyd cegin. Pe cymhwysid y ffigur hwn i'r ffigur ar gyfer gwastraff cymysg y sector cyhoeddus o 2012 a gludwyd i safleoedd tirlenwi, gellir amcangyfrif bod cymaint â 18 tunnell o wastraff bwyd wedi ei anfon i safleoedd tirlenwi.

## Cost Gwastraff

Adroddwyd gan Drysorlys EM bod gwariant y sector cyhoeddus ar reoli gwastraff yng Nghymru yn ystod 2012/13 yn £397 miliwn.

## Casgliad: ar gyfer sefyllfa bresennol y sector cyhoeddus

Mae'r sector cyhoeddus wedi gwneud cynnydd da o ran gwella ei reolaeth ar wastraff ac effeithlonrwydd adnoddau; fodd bynnag, mae peth pellter eto i fynd i gyrraedd y targedau a osodwyd yn TZW. Nod y cynllun hwn yw ysgogi gweithredu pellach yn y sector cyhoeddus i wella cyflymder y newid a sicrhau dull cydlynol ar gyfer gweithredu ac adrodd am ganlyniadau a buddion a gyflawnwyd mewn perthynas â gweithgareddau gwastraff ac effeithlonrwydd adnoddau a, lle bynnag y bo modd, yn unol â gofynion adrodd am berfformiad, dangos cynnydd drwy gyrraedd nodau Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

# Adran 7: Targedau ac amcanion hierarchaeth gwastraff allweddol y sector cyhoeddus

## Targedau

Daw deunyddiau gwastraff y sector cyhoeddus o fewn categori ‘gwastraff masnachol’ yn nhermau cynllunio strategol a deddfwriaeth. Gosododd TZW darged ailgylchu o 70% erbyn 2025 ar gyfer gwastraff masnachol. Mae cynllun y sector Diwydiannol a Masnachol yn gosod targed atal gwastraff ar gyfer gwastraff masnachol o 1.2% bob blwyddyn hyd at 2050 o waelodlin 2006/7. Gosododd Cynllun Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd darged cyfyngu ynni allan o wastraff ar gyfer gwastraff masnachol yn 30% o 2024/25, a tharged cyfyngu gwastraff tirlenwi o 10% erbyn 2019/20 a 5% erbyn 2024/25.

Mae’r targedau ar gyfer gwastraff masnachol (ac felly i’r sector cyhoeddus) wedi eu crynhoi yn Nhabl 2.

**Tabl 2 Targedau ar gyfer gwastraff masnachol (sy’n berthnasol i’r sector cyhoeddus)**

| Targedau ar gyfer | Blynyddoedd | | |
|---|---|---|---|
| | 2015/16 | 2019/20 | 2024/25 |
| Sicrhau’r gostyngiadau hyn mewn gwastraff erbyn y flwyddyn a bennwyd (sef gostyngiad o 1.2% bob blwyddyn yn erbyn gwaelodlin 2006-07)* | 10.8% | 15.6% | 21.6% |
| Paratoi ar gyfer ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio (gan gynnwys AD) y cyfrannau canlynol o leiaf o’r gwastraff a gynhyrchir. | 57% | 67% | 70% |
| Sicrhau nad oes mwy na’r cyfrannau canlynol o’r gwastraff a gynhyrchir yn cael eu hanfon i adennill ynni. | - | - | 30% |
| Sicrhau nad oes mwy na’r cyfrannau canlynol o’r gwastraff a gynhyrchir yn cael eu hanfon i dirlenwi | | 10% | 5% |

## Y targedau

**Targed atal:** Y targed ar gyfer gwastraff masnachol yw gostyngiad o 1.2 y cant bob blwyddyn hyd 2050 o waelodlin 2006/7.

Mae'n ddealledig na fydd gan y rhan fwyaf o sefydliadau sector cyhoeddus waelodlin 2006/7 ac felly dylid defnyddio'r ffigur targed uchod yn absenoldeb gwaelodlin benodol i'r sector.

Felly, er mwyn gwella ei lefelau perfformiad presennol bydd angen i bob corff sector cyhoeddus wella o 1.2 y cant o leiaf bob blwyddyn o 2015/16.

# Adran 8: Gweithgaredd Presennol a meysydd gwella ar gyfer y sector cyhoeddus

Mae'r sector cyhoeddus yn gyflogwr sylweddol yng Nghymru, ac mae hefyd yn caffael nwyddau a gwasanaethau gan fusnesau preifat ac unigolion. Bydd mesurau atal gwastraff ac effeithlonrwydd adnoddau gan sefydliadau'r sector cyhoeddus yn dangos ymrwymiad y sector cyhoeddus i gynaladwyedd amgylcheddol, a bydd yn anfon arwydd clir i'r gweithlu a chyflenwyr bod eu hymrwymiadau o ran datblygiad cynaliadwy yn cael eu cymryd o ddifrif.

## Gweithgareddau Caffael Presennol

Mae defnyddio contractau'r sector cyhoeddus i annog atal gwastraff yn cael ei weld fel mesur allweddol o beri newid allanol.

- Mae Caffael Cyhoeddus Gwyrdd (GPP) yn broses lle mae awdurdodau cyhoeddus yn ceisio caffael nwyddau, gwasanaethau a gwaith sydd ag effaith amgylcheddol lai drwy gyfnod eu hoes o'u cymharu â nwyddau, gwasanaethau a gwaith sydd â'r un swyddogaeth sylfaenol fyddai'n cael eu caffael fel arall.

  Mae prynu gwyrdd hefyd yn ymwneud â chael dylanwad ar y farchnad. Drwy hybu a defnyddio GPP, gall awdurdodau cyhoeddus greu cymhellion gwirioneddol i ddiwydiant i ddatblygu technolegau a chynnyrch gwyrdd sy'n cyfrannu at atal gwastraff.

- Mae Datganiad Polisi Caffael Cymru a gyhoeddwyd gan y Gweinidog Cyllid ym mis Rhagfyr 2012 yn gosod naw egwyddor allweddol ar gyfer arferion caffael yng Nghymru ac mae wedi ei fwriadu i symbylu canlyniadau mwy cynaliadwy. Mae egwyddor 3 yn gofyn yn benodol i gyrff sector cyhoeddus ystyried a rheoli'r effeithiau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol sy'n gysylltiedig â chaffael ac mae'n diffinio Gwerth am Arian yng Nghymru fel y cyfuniad gorau o gostau bywyd cyfan yn nhermau nid yn unig cynhyrchu arbedion effeithlonrwydd a chanlyniadau o ansawdd da ar gyfer y sefydliad, ond hefyd elw i gymdeithas a'r economi, a lleihau niwed i'r amgylchedd yr un pryd.

  I gefnogi'r dymuniad hwn mae Gwerth Cymru wedi datblygu nifer o offerynnau ac adnoddau ar gyfer sefydliadau sector cyhoeddus.

- Mae templedi Asesiad Risg Cynaladwyedd (ARC) wedi eu bwriadu i gefnogi cynllunio a darparu canlyniadau cynaliadwy drwy gontractau cyhoeddus. Yn seiliedig ar ffordd o feddwl am gylch bywyd, mae'r ARC yn hybu effeithlonrwydd adnoddau ac egwyddorion hierarchaeth gwastraff wrth gynllunio caffael.

  Mae dull y Buddion Cymunedol hefyd yn rhywbeth sydd wedi cael ei ddatblygu i gynyddu i'r eithaf effaith gadarnhaol contractau'r sector cyhoeddus a chofnodi'r manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol sy'n dod

o gynnwys cymalau cymdeithasol yn ogystal â gweithio gyda chyflenwyr a chontractwyr i sicrhau ystod eang o amcanion.

- Mae'r Gronfa Ddata Gwybodaeth am Gymwysterau Cyflenwyr (SQuID) yn ddull, seiliedig ar risg, o ddewis cyflenwyr, er mwyn sicrhau bod busnesau yng Nghymru yn cael mynediad at gyfleoedd i wneud cais am gontractau cyhoeddus yng Nghymru. Set o gwestiynau cyn-cymhwyso, safonol, yw SQuID. Mae'r catalog o gwestiynau yn cynnwys cyfres o gwestiynau cysylltiedig â chynaladwyedd i asesu addasrwydd darpar gyflenwyr i raddau cymesur â'r angen. Mae'r SQuID yn ymdrin â chydymffurfio â deddfwriaeth amgylcheddol, cyfle cyfartal a iechyd a diogelwch, ynghyd â chwestiynau yn edrych ar bolisïau amgylcheddol, rheoli gwastraff ac arferion talu'n brydlon yn benodol.

- Mae'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol, a sefydlwyd ym mis Tachwedd 2013 i ganolbwyntio ar gynyddu manteision agwedd gydweithredol Cymru gyfan at gategorïau o wariant cyffredin ac ailadroddus, yn gwbl ymrwymedig i arwain drwy esiampl gan ddilyn polisi ac offer caffael Llywodraeth Cymru.

Ceir cysylltiadau â'r canllaw uchod a'r adnoddau ar Gynllunydd Llwybr Caffael Gwerth Cymru Llywodraeth Cymru http://prp.gov.Cymru/.

## Cyfleoedd i arwain y newid

Gyda'i gilydd gall y sector cyhoeddus weithredu fel esiampl o ran ei arferion gwaith mewn perthynas â rheoli gwastraff ac effeithlonrwydd adnoddau ac, yn neilltuol, o ran rheoli gwastraff ac adnoddau a'i weithgareddau caffael.

Er mwyn sefydlu economi gylchol ar gyfer Cymru lle na fydd y deunyddiau gwerthfawr mewn gwastraff yn cael eu lluchio i ffwrdd ond yn cael eu cadw i'w defnyddio gyhyd ag y bo modd, ffrydiau gwastraff yn cael eu cadw ar wahân ac yn lân o'r cychwyn i ganiatáu iddynt gael eu casglu ar wahân a'u hailgylchu i safon uchel ac felly gynyddu'r gobaith y bydd y deunydd eildro yn cael ei ddefnyddio gan ailbroseswyr a chwmnïau gweithgynhyrchu yng Nghymru.

Gall cynyddu'r nwyddau sy'n cael eu caffael, sy'n cynnwys swm mawr o ddeunydd wedi ei ailgylchu (gan gynnwys uwchbridd), er mwyn bod o gymorth i greu galw am gynhyrchion ailgylchu fod yn gymorth i greu economi gylchol yng Nghymru.

Gall symud tuag at economi gylchol i Gymru arbed arian i'r sector cyhoeddus ac ar yr un pryd gall helpu i sicrhau deunyddiau crai i'w defnyddio gan fusnesau Cymru. Bydd hyn yn arwain at greu swyddi cynaliadwy ac yn gymorth i adeiladu busnesau sy'n gryf o ran adnoddau.

## Cwestiwn 1

**Ydych chi'n meddwl y dylai'r sector cyhoeddus, drwy ei weithgareddau caffael drwy gyfrwng ei raglen gyflenwi, annog datblygu cynhyrchion a gwasanaethau mwy cynaliadwy sy'n defnyddio adnoddau yn fwy effeithlon, gan gynnwys yr**

**angen i gynhyrchion sydd wedi eu caffael gynnwys mwy o ddeunydd sydd wedi ei ailgylchu?**

## Systemau Rheoli Amgylcheddol

Mae System Reoli Amgylcheddol yn darparu ffordd systematig i sefydliadau reoli eu systemau rheoli amgylcheddol. Defnyddir systemau rheoli megis ISO 14001, BS8555 a'r Ddraig Werdd ar draws y sector preifat a'r sector cyhoeddus i reoli a mesur effeithiau amgylcheddol. Gall systemau rheoli hefyd ddarparu fframwaith ar gyfer cyflawni arfer gorau amgylcheddol wrth reoli gweithgareddau a phrosesau'r sefydliad.

### Cwestiwn 2

**Ydych chi'n meddwl y dylid ei gwneud yn orfodol i holl sefydliadau'r sector cyhoeddus weithredu systemau rheoli amgylcheddol?**

### Sefydlu ymddygiad cynaliadwy

Drwy wella effeithlonrwydd adnoddau materol yn y sector cyhoeddus ac, yn arbennig, drwy gysylltu â'r sector addysg ceir y fantais o ymgysylltu â phlant ac oedolion ifanc er mwyn sefydlu ymddygiad cynaliadwy yn gynnar yn eu hoes.

## Cytundebau Lletygarwch a Bwyd

Cytundeb gwirfoddol yw'r Cytundeb Lletygarwch a Gwasanaeth Bwyd i gynorthwyo'r sector i leihau gwastraff bwyd ac ailgylchu mwy. Dengys ymchwil gan Raglen Gweithredu Gwastraff ac Adnoddau (WRAP) fod mwy na 1.3 biliwn o brydau bwyd yn cael eu gwastraffu bob blwyddyn yn sector lletygarwch a gwasanaeth bwyd y DU.

Mae'r Cytundeb yn hyblyg i alluogi sefydliad o unrhyw faint i ymuno, o gwmnïau rhyngwladol i fusnesau llai, o gyfanwerthwyr/dosbarthwyr y sector i gyrff masnach. Mae gwahanol ffyrdd o ymuno yn dibynnu ar faint y busnes.

Mae WRAP wedi gweithio'n agos gyda sefydliadau ac unigolion perthnasol sydd â diddordeb i benderfynu ar y targedau ar gyfer y Cytundeb. WRAP fydd biau'r targedau a chânt eu cyflawni ar y cyd gan y rhai fydd wedi ymuno. Bydd WRAP yn cynnig y Cytundeb hwn ar draws y DU drwy ei raglen genedlaethol.

## Gweithio drwy Gadwyn Gyflenwi

Gellir llwyddo i leihau gwastraff a gwneud y defnydd gorau o adnoddau wrth weithio drwy gadwyn gyflenwi a mentrau.

### Cefnogi cadwyn gyflenwi adwerthu

Mae Llywodraeth Cymru drwy WRAP wedi cydweithio'n agos gyda'r gadwyn gyflenwi adwerthu i gyd; o ddylunwyr, cyflenwyr, gweithgynhyrchwyr, brandiau mawr ac adwerthwyr drwodd i'r prynwyr i helpu i leihau gwastraff bwyd, diodydd, cynnyrch heb fod yn fwyd a deunydd pacio. Mae mentrau yn gymorth i gadwyn gyflenwi'r adwerthwyr leihau ei hôl troed carbon drwy:

- Leihau gwastraff bwyd, diod a chynnyrch drwy'r sectorau groser a gwella tai, a gartref gyda defnyddwyr;
- Dylunio a chaffael cynnyrch a deunydd pacio mwy cynaliadwy;

- Cynyddu’r defnydd o ddeunydd eildro mewn deunydd pacio a chynnyrch; a
- Chynyddu casglu ‘diwedd oes’ ac ailgylchu.

Er mwyn hwyluso’r newid hwn, mae WRAP wedi defnyddio nifer o fentrau a bargeinion cyfrifoldeb i gynorthwyo’r sector adwerthu. Er enghraifft:

- Cytundebau gwirfoddol;
- Partneriaid Hoffi Bwyd, Casáu Gwastraff; a
- Phartneriaid Ailgylchu Nawr.

## Adran 9: Y camai gweithreduu arfaethedig i sicrhau'r canlyniadau i'r sector cyhoeddus

Er cydnabod gwerth ailgylchu ac adennill ynni, er mwyn sicrhau dyfodol diwastraff a 'byw un blaned', mae'n hanfodol ein bod yn gwneud defnydd gwell o'r adnoddau sydd ar gael i ni. Yr unig ffordd i hyn ddigwydd yw i ni newid ein hymddygiadau a chanolbwyntio ein hymdrechion ar hanner uchaf yr hierarchaeth – atal gwastraff, ailddefnyddio a pharatoi ar gyfer ailddefnyddio. Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu model effeithiol ar gyfer creu dull i symbylu'r math hwn o newid tymor hir, a elwir yn ddull y "Pedair E"[12]. Ffordd yw hyn o weithio drwy'r dylanwadau y mae angen iddynt gydweithio er mwyn bod yn sbardun i newid. Ar gyfer y cynllun sector hwn, nodwyd a threfnwyd nifer o weithgareddau allweddol gan ddefnyddio model y 4E. Bydd y rhain wedyn yn creu'r sylfaen ar gyfer datblygu cyfres o weithredoedd mwy manwl ar lefel leol.

**Tabl 3 – Gweithgareddau allweddol a nodwyd i'w hystyried mewn rhaglenni gwella penodol is-sectorau (yn defnyddio dull model y 4E)**

| **Annog**<br>*Annog drwy ddulliau cadarnhaol, deddfwriaeth a newid ymddygiad* | **Ymgysylltu**<br>*Cyrraedd allan i ymgysylltu â phartneriaid* |
|---|---|
| 1. Cynhyrchu canllawiau i annog newid mewn ymddygiad / agwedd yn y sector cyhoeddus er mwyn rhoi blaenoriaeth uwch i leihau / atal gwastraff.<br>2. Sicrhau bod pob safle yn gwahanu ei ddeunyddiau gwastraff yn y fan a'r lle a bod contractau gwastraff wedi'u sefydlu ar gyfer casglu'r deunyddiau hyn ar wahân - i sicrhau bod y sector a'i gontractwyr gwastraff yn cyfarfod â'r gofyn i gasglu gwastraff ar wahân ac ailgylchu i safon uchel yn unol ag Erthygl 11 o Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff yr UE a'r cynigion yn y Bil Amgylchedd (datblygu canllawiau).<br>3. Sicrhau bod cyfleusterau 'ailgylchu wrth fynd' wedi eu gosod ym mhob man lle mae'r cyhoedd yn ymweld, yn swyddfeydd y sector cyhoeddus, cyfleusterau a digwyddiadau.<br>4. Annog cyfleusterau arlwyo'r sector cyhoeddus yng Nghymru i leihau ac ailgylchu | 1. Sicrhau aliniad â gofynion adrodd Deddf Llesiant cenedlaethau'r Dyfodol.<br>2. Ceisio cael cydweithrediad rhwng y sector cyhoeddus yng Nghymru a'i gadwyn gyflenwi i leihau gwastraff a chael modelau busnes mwy cynaliadwy.<br>3. Ymgysylltiad rhwng yr Awdurdodau Lleol a chyrff eraill y sector cyhoeddus gan gynnwys Byrddau Iechyd i edrych i mewn i gyfleoedd darparu gwasanaethau ac adolygu a goresgyn rhwystrau a ganfyddir ar ffordd caffael. |

[12] *A framework for pro-environmental behaviours*, Defra 2008. Cyfeiriwn at ddull y 4E yn ein canllaw a'n cyngor I gefnogi'r Siarter Datblygiad Cynaliadwy

| | |
|---|---|
| eu gwastraff bwyd, ac ymuno â Chytundeb Lletygarwch a Gwasanaeth Bwyd (HAFSA) Cymru. http://www.wrap.org.uk/content/hospitality-and-food-service-agreement-3<br>5. Datblygu mentrau newid ymddygiad er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r hierarchaeth gwastraff a gyrru'r sector cyhoeddus i symud y tu hwnt i ailgylchu tuag at atal gwastraff. Caiff 'ailgylchu wrth fynd' (gan gynnwys gwahanu deunyddiau blaenoriaeth ar y cychwyn) ei hyrwyddo ymhlith defnyddwyr gwasanaethau'r sector cyhoeddus ac mewn digwyddiadau a ariennir gan y sector cyhoeddus.<br>**6.** Annog lleihau gwastraff, ailgylchu o safon uchel, benthyca ac ailddefnyddio cynhyrchion fel amodau grantiau'r sector cyhoeddus.<br>7. Annog ysgolion, colegau a phrifysgolion i sefydlu rhaglenni atal gwastraff gyda chyfranogiad gweithredol y disgyblion / myfyrwyr, ac edrych am gysylltiadau â'r gymuned leol.<br>**8.** Cynhyrchu canllawiau i'r sector cyhoeddus sefydlu man cychwyn perfformiad ar gyfer gosod targedau gwella.<br>9. Annog y sector cyhoeddus i ddefnyddio system 'edoc'[13] i adrodd am ddyletswydd gofal. | |

[13] http://edoconline.co.uk/

| **Galluogi**<br>*Darparu'r addysg, y sgiliau, y polisïau a'r seilwaith angenrheidiol i wneud ffyrdd o fyw cynaliadwy'n bosibl* | **Gosod Esiampl**<br>*Dathlu llwyddiant y rheiny sy'n arwain y ffordd gyda phrosiectau a chynnyrch blaengar* |
|---|---|
| 1. Edrych ar ddewisiadau ar gyfer datblygu prosesau caffael cynaliadwy er mwyn dylanwadu ar gylch oes y gadwyn gyflenwi o brynu i ddefnyddio ac i'r defnydd terfynol / dewisiadau difa.<br>2. Nodi a thargedu ffrydiau gwastraff sy'n achosi problemau o fewn y sector e.e. gwastraff clinigol o is-sector gofal iechyd.<br>3. Adeiladu ar ymgyrch atal gwastraff flaenorol y sector cyhoeddus er mwyn sicrhau bod yr offer a'r gefnogaeth oedd ar gael bryd hynny yn cael eu hadolygu, eu diweddaru ac ar gael i'r holl sefydliadau yn y sector cyhoeddus.<br>4. Archwilio mecanweithiau gyda Gwerth Cymru er mwyn sicrhau bod grym caffael cyhoeddus Cymru yn sicrhau canlyniadau cynaliadwy a chost effeithiol i fusnesau Cymru yn y gadwyn gyflenwi, er mwyn iddynt ddatblygu cynnyrch a gwasanaethau mwy cynaliadwy, gan ddefnyddio adnoddau'n fwy effeithlon, Mae hyn yn cynnwys defnyddio deunyddiau wedi eu hailgylchu i safon uwch (gan gynnwys compost mewn uwchbridd a ddefnyddir wrth dirlunio), ac wedi eu dylunio i gael eu hailddefnyddio, bod yn hawdd eu trwsio ac yn hawdd eu tynnu ar wahân a'u hailgylchu.<br>**5.** Edrych ar ffyrdd i gynyddu'r gwaith o ailddefnyddio a pharatoi eitemau gwastraff a gynhyrchir gan y sector cyhoeddus yng Nghymru ar gyfer eu hailddefnyddio, gan gryfhau, lle bo modd, y cysylltiadau â mentrau cymdeithasol. | **1.** Datblygu gwaelodlin o fentrau effeithlonrwydd adnoddau ac arferion rheoli gwastraff yn gynaliadwy ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru<br>**2.** Adeiladu ar Gytundeb y Sector Lletygarwch a Gwasanaeth Bwyd er mwyn sicrhau bod pob corff yn y sector cyhoeddus yng Nghymru a'u cyflenwyr bwyd yn cymryd rhan.<br>**3.** Drwy weithgareddau caffael gall y sector cyhoeddus arwain drwy esiampl drwy gyrraedd ei nodau ei hun ac arbed arian drwy atal gwastraff, ailddefnyddio ac ailgylchu<br>**4.** Gosod targedau gwella mewnol ymestynnol ar gyfer lleihau gwastraff ac atal gwastraff.<br>**5.** Monitro ac adrodd am gynnydd yn erbyn targedau a chofnodi'r buddion cysylltiedig a chyfraniadau at gyflawni'r nodau llesiant fel y'u disgrifiwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.<br>**6.** Arwain drwy esiampl gan weithredu systemau rheoli amgylcheddol i reoli effeithiau amgylcheddol yn well. |

# Adran 10: Sut y caiff y newid ei gefnogi a'i fonitro

## Arweiniad ynghylch gweithredu

Mae Llywodraeth Cymru, drwy'r darparwyr sy'n bartneriaid, yn awgrymu gweithio gyda'r sector cyhoeddus i ddatblygu arweiniad penodol i sector i gynorthwyo'r sector i wneud y newidiadau sy'n ofynnol er mwyn cyfarfod â'r targedau a osodwyd yn TZW ar gyfer y sector.

## Grŵp Llywio

Byddwn yn sefydlu grŵp llywio Sector Cyhoeddus o fewn Llywodraeth Cymru i oruchwylio a monitro newid ar gyfer y sector.

## Grŵp/Grwpiau Cynghori Technegol

Drwy'r darparwyr sy'n bartneriaid, byddwn yn hwyluso gweithgorau cynghori fydd yn cyfrannu drwy gyd-drefnu a chynhyrchu arweiniad penodol i'r sector. Gwahoddir cynrychiolwyr i ymuno â'r gweithgor o bob corff cyhoeddus.

Bydd y gweithgor(au) yn rhoi cyngor ynghylch dangosyddion perfformiad priodol ac yn hwyluso adrodd am gynnydd ar gyfer y sector.

## Rhaglenni gweithredu

Mae rhaglenni a phrosiectau penodol wedi cael, ac yn mynd i gael, eu dylunio i gyflawni'r gweithredoedd er mwyn sicrhau'r canlyniadau ar gyfer pob sector a gweithredu arweiniad y sector. Bydd cyflawni'r rhaglenni hyn yn cyfrannu at ganlyniadau lefel uchel y strategaeth gwastraff ar gyfer Cymru.

## Monitro ac adrodd am gynnydd

Byddwn yn gweithio gyda'r Grwpiau Cynghori Technegol a'u sefydliadau i gasglu data perfformiad ac adroddiadau cynnydd mewn perthynas â gweithredu cynllun y sector cyhoeddus a datblygu arweiniad cysylltiedig.

Yn neilltuol, anogir cyrff cyhoeddus i gydlynu'r gofynion adrodd dan y cynllun hwn gyda'r gofynion adrodd am gynnydd dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru ) 2015 mewn perthynas â chyrff cyhoeddus yn gweithio i gyflawni'r nodau llesiant ar gyfer Cymru.

## Adroddiad cynnydd TZW

Mae adroddiad cynnydd y TZW a gyhoeddwyd yn haf 2015 yn amlygu'r hyn y llwyddwyd i'w gyflawni ers cyhoeddi TZW. Bydd adroddiadau yn y dyfodol yn cynnwys y cynnydd a wnaed gan y sector cyhoeddus.
http://gov.Cymru/topics/environmentcountryside/epq/waste_recycling/zerowaste/?skip=1&lang=en

## Adrodd drwy nodyn trosglwyddo electronig

System ar-lein newydd yw edoc a ddatblygwyd i alluogi busnesau i gyflawni eu dyletswydd gyfreithiol o ofal am wastraff yn electronig. Mae'n ei gwneud yn bosibl cofnodi Nodiadau Trosglwyddo Gwastraff yn gyflymach, yn rhatach, yn fwy cywir a heb gadw copïau papur. Mae hefyd yn galluogi rheoleiddwyr gwastraff a llywodraethau i olrhain a dadansoddi symudiadau gwastraff a dileu troseddau gwastraff megis tipio anghyfreithlon ond diogelu cyfrinachedd data masnachol yr un pryd. Darperir edoc am ddim i ddefnyddwyr

### Cwestiwn 3

**Ydych chi'n meddwl y dylai pob sefydliad yn y sector cyhoeddus ddefnyddio system edoc i reoli gofynion adrodd am ddyletswydd o ofal? Os ydych, ydych chi'n meddwl y dylai hyn fod yn orfodol?**